



# Llais y Llan Mehefin 2021

Copï dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Gorfennaf 26 2021

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n  
arianol at Lais y Llan



Myth wedi ymosodiad Cnocell y Coed



Deryn Du'n dathlu'r Gwanwyn



Clafdy Skanda Vale



Swift by Inger Lund Swift Conservation



Deryn Du'n dathlu'r Gwanwyn



Robin Goch yn aros am fwydyn



Ffotograffiaeth Tina Conyard

## Llofruddiaeth yn Llanpumsaint

Bu'r Titw Tomos Las yn nythu ger ein stablau am y pum mlynedd ers i ni gyrraedd Panteg. Un bore'r wythnos yma edrychai popeth yn iawn gyda'r adar yn heidio i mewn ac allan dan ganu. Yna amser cinio trychineb pan ddaeth Edward i mewn i weld twll mawr yn y blwch nythu a'r adar bach wedi mynd ar wahân i un marw ar y llawr.

Llwyddodd Edward i dynnu llun y troseddwr wrthi.

Dywadir nad oes dim yn well gan Gnocell y Coed na thorri twll i mewn i nyth Titw Tomos Las neu'r Titw Mawr, llusgo'r bychan allan, eu pigo a sugno cynnwys yr amynedd. (Ymddiheuriad os i chi wrth eich cinio).

Pwy feddyliau i aderyn mor hardd fod gymaint o lofrudd? E & S Davies

# Brechfa Trwy'r Oesoedd

## Cysylltu pobl drwy archwilio yn greadigol Gwyneb i wyneb ar gyfer yr haf

Mae Arts Care Gofal celf yn falch iawn i gyhoeddi ein bod wedi derbyn cyllid oddiwrth Gronfa Gymunedol Ffwrnais Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa er mwyn darparu gweithgareddau seiliedig ar gelf i'r bobl sy'n byw yn ardal Coedwig Brechfa dros 2021.

Cymerwych rhan yn bersonol am y tro cyntaf ac aii-gysylltwch a' gymuned i greu, a chael hwyl...

### Yn Keepers, Brechfa... awyr agored ond dan do

**CELF CHLOM -26/ 6/ 21, 10.30-12.30**

Hwyl greadigol gyda Chlom, cymysgedd mwldyd o isbridd a gwelit. Byddwch yn cael y cyfle i gynhyrchu'r clom ei hun ac yna defnyddio'r cymysgedd i fowliau wynebau neu batrymau, ac ychwanegu ychydig o hud i'r Goedwig. Gweithdy greadigol, llawn hwyl, o dan arweiniad Dani Lee o ACGC.

**DAIL GWIFREN – 3/ 7/21 10.30-12.30**

'Gadewch ychydig o le i greadigrwyd', ymunwch a Fram i ddysgu sgriliau weiar a glain a ysbrwdolwyd gan goed Coedwig Brechfa.

**PRINTIO LEINO – 10/7/21, 10.30- 15.30 a 17/7/21, 10.30-12.30**

Gweithiwr gyda Polly yn y sesiwn gyntaf o'r cyflr 2-ddiwrnod hwn i ynniunio o thorri cyfles o brintiau leino un lliw. Byddwch yn dychwelyd ar lau 17, gadael gyda'r gwaith i fod yn falch ohono.

**GWAITH HELYG- 24/7/21, 10.30-12.30**

Dysgwch dechnegau gwehydda coed helyg gyda'r artist lleol Justine, ac adeliadwch bwydwr adar aml-bwroas tra'n mwynhau swn yr adar yn coed yn Keepers

### Yn Eglwys Llanllawddog Church... gweithdy dan do

**DALIWR HAUL GWYDR LLIW – 7/8/21, 10.30-16.00**

Cynhyrchwch ddeilen fechan, neu ddaliwr haul o wydr lliw wedi'i ffolio a chorff. Torrwch, malwch a ffoiliwch wydr, a sodrwr y cyfan at ei gilydd, fel eich bod yn gallu mynd a'r cynnrych adref, a hongian darn bach o natur yn eich ffenestre; bydd y cyfan yng ngofal Laura.

Rhaid bwcio gan fod llefydd yn gyfngedig er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Mae'r HOLL sesiynau AM DDIM.

I DDECHRAU, BYDD LLEFYDD YN GYFNGEDIG I DDIM OND 1 NEU 2 WEITHGAREDD YR UN I BOB PERSON, FEL BOD CYFLR GAN BAWB I GYMRYD RHAN.

Bwcio: Ebostiwr [rachel@acgc.co.uk](mailto:rachel@acgc.co.uk) neu gadewch neges ar 01267 243815



[www.acgc.co.uk](http://www.acgc.co.uk)



Profi  
Olrhain  
Diogelu  
Test  
Trace  
Protect

## Profion COVID-19



### Gyda symptomau

#### Profion 'PCR'

Pryd i gymryd y prawf

- Os oes gennych symptomau COVID-19
- I gadarnhau canlyniad positif prawf llif unffordd


Faint mae'n ei gymryd

- Labordai sy'n prosesu'r profion hyn
- Ceir y rhwng fwyaf o ganlyniadau y diwrnod canlynol, ond gallant gymryd hyd at 3 diwrnod

Ble i gael prawf

- Mewn safle profi
- Gartref

**Cymerwch bawf i ddiogelu Cymru**  
[llyw.cymru/pod](http://llyw.cymru/pod)



### Heb symptomau

#### Profion 'llif unffordd cyflym'

Pryd i gymryd y prawf

Ddwyaith yr wythnos pan nad oes gennych symptomau os ydych:

- Yn wirfoddolwr
- Yn ofalwr di-dâl
- Methu gweithio gartref
- Cymryd rhan mewn cynllun profi yn eich gweithle neu leoliad addysg

Efallai y gofynnir i chi hefyd gael prawf am resymau eraill, fel cyn mynychu digwyddiad.

Faint mae'n ei gymryd

- Y ddyfais sy'n prosesu canlyniad y prawf
- Tua 30 munud

Ble i gael prawf

- Gartref
- Ei gasglu o safle profi
- O'r gwaith
- O'r ysgol neu'r coleg
- Yn eich prifysgol
- O'ch meithrinfa

## Cyflenwyr lleol sy'n barod i ddosbarthu neu archebu a chasglu

Gwelir tipyn o wybodaeth am siopau a chyflenwyr ar safle Facebook – Llanpumsaint ar cylch. Os nad ydych yn defnyddio Facebook dyma rai manylion am siopau a chyflenwyr sy'n barod i helpi'n lleol, drwy dderbyn archebion dros y ffon, dosbarthu neu archebu a chasglu.

**Tafarn y Railwe** Diodydd y tu allan yn unig - 01267 253643 a Facebook

**Becky Llysiau a ffrwythau** - yn y pentre' bob dydd Iau - 2 o'r gloch ymlaen.

**Adrian Thomas** - Bara, danteithion a chacennau. Archebwch Ddydd Llun i dderbyn Dydd Mercher – 07971 740505.

Cig Porfa Perffaith - **Nicky Esgair** 01267 253463

Bacwn a Selsig - **Treftadaeth Myrddin** 07468 453770

**Siop Gwalia** - Ffonio a chasglu 01267 253249

**Chris Thomas** Abergwili - Ffonio a chasglu – 01267 238363

**Castell Howell** – Archebu a chasglu ar y We o Cross Hands 01269 846080

**Castell Howell** - Talu a chasglu o Gaerfyrddin – gwelwch ein gwefan

**Farmyard Nurseries** – Yn dosbarthu archebion 01559 363389

**Pobydd Hafod** Archebwch Ddydd Mawrth i dderbyn Dydd Iau 01267 211419

**Fan Swyddfa Bost** - Dydd Mawrth 1.30pm to 3.00pm, Dydd Gwener 1.00pm to 3.00pm.

Ac wrth gwrs os gewch chi slot mae Morrisons, Asda a Tesco yn dosbarthu – pob lwc!

## Neges oddi wrth Gyngor Sir Gar

Mae busnesau yn Sir Gar gyda sefydliadau a grwpiau cymorth cymunedol COVID 19 yn mynd yr ail filltir i gynnig cymorth yr adeg yma. Er mwyn gweld beth sy'n digwydd yn eich ardal ac y ganfod pa gymorth sydd ar gael ewch i wefan y Cyngor Sir.

Gallwch ychwanegu eich busnes i'r rhestr ar [covid19community@carmarthenshire.gov.uk](mailto:covid19community@carmarthenshire.gov.uk)

[<mailto:covid19community@carmarthenshire.gov.uk>](mailto:covid19community@carmarthenshire.gov.uk) gan ychwanegu enw'r sefydliad, grŵp neu fusnes, disgrifiad byr ac egluro sut i gysylltu e.e. facebook - y We - E-bost - rhif ffôn. Nodwch hefyd pa ardal rydych yn gweithio ynddi. Gallwn ychwanegu gwasanaethau gwahanol neu rai newydd er mwyn cydweithio i gefnogi ein cymunedau.

## Curad Calon Llanpumsaint

Dymar criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfy wiwr mwn gwahanol safleoedd yn yr ardal – Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Gosodwyd blwch newydd i'r Adfywiwr ger y Neuadd a diolch i Galon Cymru amdano am ddim.

Diolch hefyd i Wil am ei osod lan a'i gysylltu â chyflenwad trydan y Neuadd.

Os pery rhywun drawiad ar y galon gore gyd pwy gyntaf iddo gael triniaeth yr Adfywiwr er mwyn goroesi. Bydd pob munud yn dyngedfennol ac mi fydd y Gwasanaeth Ambiwlans yn barod i'ch cyfarwyddo dros y ffon nes bod cymorth ychwanegol yn cyrraedd. Gallai hyn ddod o gyfeiriad y Gwasanaeth Tan sydd hefydl/87 wedi eu hyfforddi i ymateb ac aros yno nes i'r Ambiwlans gyrraedd.

Os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r Adfywiwr gallwch fenthyg y pecyn ymarfer oddi wrtho i, a chyflie felly i'w ddangos iaelodau eraill o'ch teulu. Hyd yma ni ddefnyddiwyd un o'r peiriannau yma yn yr ardal, ond pwys a wyr pan ddaw galw, felly mae ymarfer ymlaen llaw yn fod i arbed bywyd. Carolyn Smethurst 01267 253308 info@gwilimill.com

## **Eglwysi Llanpumsaint, Bronwydd a Llanllawddog Yr Eglwys yng Nghymru**

Fel y gwyr llawer ohonoch mae Llanpumsaint a Llanllawddog yn eglwysi Eco, a Sant Celynin yn aneli at fod yn un hefyd. Cymerwn ein cyfrifoldeb Cristnogol i ofalu am gread Duw a charu ein cymdogion. Sylweddolwn yn anffodus i'r newid hinsawdd effeithio'n sydyn a dwfn ar y rhai sy'n llwm, difreintiedig ac yn byw dan Lywodraethau gwanllyd. Efallai i ni dybio i'r newid hinsawdd fod yn broblem y dyfodol, ond i nifer yn y byd mae eisoes yn frwydr byw.

Haf eleni gobeithiwn ehangu ein bioamrywiaeth yn ein mynwentydd dan reolaeth newydd. Dyw newid i ymarferion eco- gyfeillgar fyth yn syml nac yn rhwydd ond gobeithiwn berswadio pobl i gymerid camau byr sydd yn rhyddhau effaith gymunol.

Gosododd yr Esgob Joanne heri bawb cyn y Gynhadledd COP26 Newid Hinsawdd ym Mis Tachwedd a gynhelir yng Nglasgow ar wahodiad y Deyrnas Unedig. Ar Ddydd Gŵyl Dewi gychwynnodd Yr Esgob, Y Parch Gaynor ac eraill bererindod rhithwyr, drwy gerdded y 408 milltir O Dyddewi i Glasgow erbyn Tachwedd.

Dyweddodd yr Esgob, "Cynhelir y Gynhadledd bob dwy flynedd, ond mae eleni yn bwysicach nag oll oherwydd i'r amser brinhau i reoli tymheredd byd-eang. Felly gosodaf yr her yma i bawb. Os cerddwn ni gyd ddwi filltir y dydd rhwng Dydd Gŵyl Dewi a'r cyntaf o Dachwedd byddwn i gyd wedi cwblhau'r 408 milltir, sef y pellter rhwng y ddau le.

Oherwydd y Cyfnod Clo ni allwn gerdded o Dyddewi i Glasgow, ond gallwn gerdded yn lleol er lles ein hiechyd o amgylch y gymdogaeth neu hyd yn oed yn yr ardd. Gobeithiwn godi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n wynebu ein byd a roddwyd i ni gan Dduw. Rhaid i ni weithio a cherdded er mwyn sicrhau dyfodol ein planed a holl greaduriaid Duw - gan gynnwys ni ein hunain a'r cenedlaethau i ddod".

Os hoffech chi ymuno a'r Bererindod Rith neu ein hymgyrchoedd Eco- eglwysig neu unrhyw ymholiad eglwysig yna cysylltwch â'r Parch Gaynor i,[gaynor@hotmail.com](mailto:gaynor@hotmail.com). 01267 253158

### **Newyddion Eglwysig arall**

Gwasanaethau Zoom yn parhau am naw bore Mercher a deg bore Sul  
Mudiad DOT Ieuenciad ar y Nos Iau

Cysylltwch â'r Parch Gaynor am fwy o wybodaeth.

Gwasanaethau Cymun o fewn adeiladau eglwys heblaw cyhoeddiad gwahanol.

Oherwydd cyfyngiadau Cadw Pellter rhaid cysylltu â'r Ficer ymlaen llaw cyn gwasanaeth eglwys.

Bydd y canlynol i gyd am 2 o'r gloch y prynhawn

Sul 20fed Mehefin – Llanllawddog

Sul 27ain Mehefin – Sant Celynin Bronwydd - Gwasanaeth awyr agored.

Sul 4dd Gorffennaf - Sant Alban Cwmduad - (Arweinir gan Y Parch Delyth Richards)

Sul 11eg Gorffennaf - Llanpumsaint

Sul 18fed Gorffennaf - Llanllawddog

Sul 25ain Gorffennaf - Sant Celynin Bronwydd - Gwasanaeth awyr agored

Sul 8fed Awst – Sant Alban Cwmduad

Sul 15fed Awst – Llanpumsaint

Sul 22ain Awst – Llanllawddog

Sul 29ain Awst – Sant Celynin Bronwydd – Gwasanaeth awyr agored

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint – Y diweddaraf yn mis Mai

Wedi cyfnod mor wlyb ar gychwyn 2021 bendigedig i'w gweld gwell tywydd a chyfle i bawb fwyhau cyfleusterau ein Cae Chwarae ynghyd a mudiadau chwaraeon ieuenciad fel Peniel Panthers.

Wedi blynnyddoedd o wasanaeth clodwiw Mae Pamela Jones wedi camu'n 'nol o'r Gadair i roi cyfle i eraill gymerid yr awenau. Camodd Aaron Jones, sydd wedi byw yma ers deng mlynedd i'r swydd. Mae yna Is- Gadeirydd newydd hefyd wrth i Sarah Moore gamu iddo. Ar ran y Pwyllgor diolchwn i Pamela am ei holl waith caled a'i hymrwymiad i'r swydd, ac rydym yn falch i'w gweld yn parhau ar y Pwyllgor.

Rydym hefyd yn chwilio am Ysgrifennydd newydd ac yn awyddus i weld rhywun yn camu i'r swydd hon hefyd ac yn dod yn aelod o'r Pwyllgor. Diolch hefyd i Lyn am ei holl waith wrth gyflawni'r swydd hon am flynyddoedd.

Er iddi fod yn gyfnod anodd dros flwyddyn rhaid cydnabod fod y Cae Chwarae wedi cynnig lle diogel i drigolion gysylltu . Bu hyn yn gymorth i deuluoedd ac unigolion wynebu cyfnod anodd iawn. Dymuniad y Pwyllgor i'w gweld ein Cae yn parhau i fod yn ganolfan i'r gymuned ac i ganlyn hynny gwnaed cais i Gronfa Gymunedol Brechfa am gymorth.

Prif nod y Cais yw sicrhau adnoddau i blant, teuluoedd, pobl fethedig a'r henoed allu mwyhau'r cyfleusterau yn ddiogel drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cyfarpar newydd, safle sych dan draed ynghyd a ffin addas i amgylchynu'r adnoddau. Gobeithir i hyn annog defnydd o'r lle yn ystod yr holl dywydd gwlyb a'r stêcs. Cawn wybod ein tynged ym Mis Gorffennaf.

Am wybodaeth bellach ynghyn a'n bwriadau i'r dyfodol neu am wybodaeth i ymuno a ni ewch i [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) neu siaradwch ag aelod o'n Pwyllgor.

**Gofal Traed** Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

## Bowlio Dan Do Llanpumsaint a Nebo

Fel arfer gwêl mis Mehefin ddiwedd tymor y Gynghrair, y Cwpan a holl gystadlaethau'r Clwb yn terfynu. Yna diweddglo'r tymor ar noson fawr y Dathlu, pan fydd ambell un yn camu dros ben llestri. Ond be sy'n digwydd pan fod y Clwb yn garcharor yn y Clwb. Pwy alle fod wedi tybio na fyddai dim chwarae bowls am 15 mis pan ddechreuodd hyn oll. Felly croesi bysedd a phopeth arall yw hi y gwelwn ail gydio i chwarae yn yr Hydref am dymor 2021/2022..

Os daw newyddion pellach bydd ar ein gwefan [Llanpumsaintsmbc.org.uk](http://Llanpumsaintsmbc.org.uk)

## **Clwb Cant Llanpumsaint**

Diolch i'r holl aelodau yr hen a'r newydd, bydd 113 yn cymerid rhan eleni. Ceir y rhestr lawn ynghyd a'm Hadroddiad ariannol ar yr atodiad i'r Llais y mis yma.

Yr enillwyr diweddaraf -

### **Mis Mawrth**

£20 - rhif 42 Sandy Maher / £15 - rhif 15 Shirley Davies (Brackla) / £10 - rhif 88 Vi Robinson.

### **Ebrill**

£20 - rhif 74 Marged Davies / £15 - rhif 46 Eifion Saer / £10 - rhif 25 Aaron Jones.

### **Mai**

£20 - rhif 52 Brian Smethurst / £15 - rhif 39 Meinir Jones / £10 - rhif 74 Marged Jones

### **Mehefin**

£20 - rhif 57 Dafydd Lloyd George / £15 - rhif 34 Edward Jones / £10 - rhif 80 Cerys Brown  
Penderfynais mai hon fydd fy mlwyddyn olaf yn rhedeg y Clwb Cant, ac er i mi fwynhau'r gwaith am wyth mlynedd mae'n amser newid.

Os am gymerid ar yr awenau o Chwefror nesaf 2022, ffoniwch fi am drafod neu ewch i wefan y Pwyllgor Lles ac Adloniant - [parclanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parclanpumsaintpark@gmail.com) <mailto:parclanpumsaintpark@gmail.com>

Derick Lock Trysorydd clwb Cant Llanpumsaint 01267 253524

## **Idris Davies, Melin-y-Pandy**

Dymuna Marged, Ellen a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn i'w cymdogion a ffrindiau yn Llanpumsaint am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn eu profedigaeth annisgwyl o golli Idris. Mae eich cariad a charedigrwydd dros yr wythnosau diwethaf wedi bod o gysur mawr i ni ac 'rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn eich cefnogaeth mewn cyfnod mor anodd.

## **Ffotograffiaeth Tina Conyard**

Adeg y Cyfnod Clo bum mor ffodus i edrych yn ôl dros y miloedd o luniau dynnaid dros y blynnyddoedd er mwyn cynnal fy niddordeb.. O edrych arnynt daw atgofion melys o'r holl deithio i amryw lefydd yng nghwmni Rob.

Nawr wrth i ni allu teithio unwaith eto fy mwriad yw ymweld â llefydd fu'n wahardd hyd yn hyn er mwyn casglu lluniau newydd. Caf ychydig oriau rhydd yr wythnos pan ddaw rhywun i warchod Robert er mwyn camu mas.

Aeth y daith gyntaf a mi Ganolfan Gwlypdir Llanelli. Er yr holl dywydd gwlyb yn ddiweddar bum yn ffodus i weld yr haul ac felly modd i dynnu lluniau. Er y teimlad od o fynd allan wrth fy hunan gwyddwn fel Gofalwraig llawn amser y pwysigrwydd o gael hoe fach, felly pe lan a bant a fi.

Mae'r Gwlypdir yn werth ymweld ag e er i'r gwarchodle fod ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Gwelir pob math o adar yno gan gynnwys fflamingos, Rwyf am rannu rhai o'r lluniau gyda'ch chi yn y gobaith i chi eu mwynhau, ac efallai talu ymweliad yno. Tina

## **Menter Gorllewin Sir Gâr**

O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu barhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r llywodraeth parthed cyfyngiadau.

### **Taith Fygi:**

Rydym wedi ail-gychwyn ar ein sesiynau teithiau bygi poblogaidd yn y dair ardal, sef Hendygwyn-ar-Daf, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin. Mae'r teithiau yn ymgynnll am 10:15yb ac yn cychwyn am 10:30yb ym mhob ardal. Ymunwch â ni am gyfle i sgwrsio, gwneud ychydig o ymarfer corff ac am wac hamddenol. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flae llaw gan fod nifer cyfyngedig yn gallu mynchu yn dilyn canllawiau'r llywodraeth. Cysylltwch gyda [gwawr@mgsg.cymru](mailto:gwawr@mgsg.cymru) i gofrestru.

### **Beicio Mynydd:**

Mae'r Fenter yn gyffrous i gychwyn clwb beicio mynydd yn Byrgwm, Brechfa i bobl ifanc flynyddoedd 6, 7 ac 8, i gychwyn ar nos Iau'r 10fed o Fehefin o 5-7yh. Niferoedd cyfyngedig felly cysylltwch gydag [alma@mgsg.cymru](mailto:alma@mgsg.cymru) i gofrestru.

### **Sesiynau Cymorth Digidol:**

Ar ddechrau blwyddyn newydd beth am ddysgu sgiliau newydd? Rydym fel Menter yn cynnig cymorth digidol. Gallwn gynnig cymorth i chi ddefnyddio unrhyw ddyfais neu i'ch helpu i ddatblygu unrhyw sgiliau digidol. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu gyda ni a gallwn gynnig cymorth 1 i 1 i chi dros y ffôn neu dros Zoom. Os oes gennych unrhyw anghenion eraill cysylltwch gyda ni am sgwrs. Cysylltwch ar 07939 962042 neu e-bostio [ceris@mgsg.cymru](mailto:ceris@mgsg.cymru) i drefnu eich sesiwn.

### **Cyfryngau Cymdeithasol:**

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - [@MenterGSG](https://twitter.com/MenterGSG)

Instagram - [@MenterGSG](https://www.instagram.com/mentergorllewinsirgar)

E-bost - [ceris@mgsg.cymru](mailto:ceris@mgsg.cymru)

neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris dros y ffôn: 07939 962042.

## **Y Gymdeithas Rhandiroedd**

Os oes yna drigolion yn Llanpumsaint yn awyddus i ymuno a ni una cysylltwch. Gallwn eich ychwanegu ar y rhestr aros gan gysylltu cynted a daw lleoliad yn rhydd ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol. Y tal yw £35 y flwyddyn wrth ymuno ac yna £25 wedi hynny Disgwylir i'r taliadau gael eu gwneud erbyn 8 o'r gloch ar y laf o Fawrth

Efalle i chi weld ishe'r tynnu coes y tro hwn, y rheswm am hynny yw nad Keith fu'n ysgrifennu. Hoffwn ddiolch iddo am ei holl waith caled a'i ymroddiad i'r Gymdeithas Rhandiroedd. Rydym yn gweld ei ishe yn barod. Cyswllt -- Rosie 07950 411536

[RosieFrewin@yahoo.co.uk](mailto:RosieFrewin@yahoo.co.uk) Ray – 253157

Dyma fi wedi clywed fod gwaith ar **Bont y Ffatri (Nant yr Ynys)** yn debygol o ddigwydd o ganol Mis Gorffennaf ymlaen; golyga hyn fydd yr heol ar gau am 3 mis. Phil Jones

## **CYLCH MEITHRIN BRONWYDD /CYLCH Y GOEDWIG**

Cysylltwch â Verona, Arweinydd ar 07929 431652 neu [cylchmeithrinbronwydd@gmail.com](mailto:cylchmeithrinbronwydd@gmail.com)

**Brics Codi Arian** - A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â Catrin Eldred ar 07772235243.

**Croeso** i newydd ddyfodiaid Bwthyn a Beudy Bach ac eraill sydd wedi cyrraedd Cadwch yn iach a diogel – Eich cyfaill cyfrifiadurol – Dave

### **Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall**

Ar y foment mae'r Neuadd yn parhau ar gau ac yn methu cynnal digwyddiadau oherwydd sefyllfa covid-19. Fe fydd y pwylgor yn cwrdd yn rhithiol dros yr wythnosau nesaf i drafod ffordd ymlaen wrth ail agor y Neuadd yn y dyfodol. Diolch

### **Gwasanathau Capel Nebo**

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

### **Capel Ffynnonhenri**

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

**Caersalem** - Os byddwch chi am ddod i'r cwrdd, ffoniwch 253895 am fwy o fanylion

### **Brechfa Drwy'r Canriffoedd**

Dyma ein rhestr newydd a therfynol o weithdai a drefnwyd i'r cynllun. Pleser cyhoeddi y bydd y rhain yn ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar Zoom.

Cyfyngir y rhif i bob gweithdy er mwyn cydymffurfio a gofynion Covid i sicrhau fod pawb yn teimlo'n ddiogel a chyforthus. Gobeithio iddynt fod yn hwylus ac yn gam creadigol i ail gysylltu â'r gymuned leol.

Oherwydd y nifer cyfyngedig rhaid llogi lle ymlaen llaw, gan ddechrau gyda'r ddau cyntaf er mwyn sicrhau fod pawb yn cael cyfle. Ychwanegir at y rhif lle bynnag i hyn fod yn bosib.

Bydd mwy o wybodaeth ar y posteri ond dyma restr o'r digwyddiadau

7fed Mehefin – Celf Cob

3dd Gorffennaf - Dail Gwifren

10fed Gorffennaf - Print Lino 1 a 2

17eg Gorffennaf - Print Lino2 a 2

24ain Gorffennaf - Gwau Helygen

Yn Neuadd Llanllawddog – 7fed Awst – Gwydr Lliw Heulog

I logi lle cysylltwch a [rachel@acgc.co.uk](mailto:rachel@acgc.co.uk) gyda'ch enw a'ch manylion cysylltu

Fel eglurwyd uchod cyfyngu'r i 1 neu 2 gweithdy i gychwyn, felly nodwch eich dewis cynta' a'r ail. Yna gobeithiwn ychwanegu cymaint â phosib i'r gwahanol weithdai wedyn. Daw cadarnhad o'ch lle llwyddiannus.

Felly croeso i gyd gyfrannu gyda thrigolion coedwig Brechfa a'r artistiaid ac edrychwn ymlaen at gyd gwrdd wyneb yn wyneb wedi cyfnod hir o bellter ar-lein.

Pob hwyl Rachel Murphy [www.acgr.co.uk](http://www.acgr.co.uk)

## **Clwb Criced Bronwydd**

Diolch i'r drefn mae Clwb Criced Bronwydd wrthi unwaith eto. Bob Sadwrn o ddechrau Mai hyd ddiwedd Awst byddwn yn chwarae ar gae Cnwcyderi, tra i'r tywydd ganiatáu wrth gwrs. Y Tîm Cyntaf (Adran 1 o Gynghrair De Cymru) un wythnos, a'r Ail Dîm (Adran3) yr wythnos ganlynol. Fel arfer bydd y chwarae yn dechrau am un o'r gloch gan orffen erbyn 7 yr hwyr. Gallwch wyliau o'r tu fas neu bellach o'r Bar sydd bob amser ar agor tra bod gemau. I'r bechgyn a'r merched, Y Ser, o bedair oed hyd naw, mae ymarfer a chwarae bob bore Sul yn dechrau am hanner awr wedi deg. Anogir y rhieni i gymerid rhan hefyd. Ceir gwybodaeth bellach oddi wrth Karl von Weber ar 07769226695 - [karl.vonweber@btinternet.com](mailto:karl.vonweber@btinternet.com) Wedyn daw cyfle i'r plant gystadlu yng Nghynghrair Ieuenciad De Cymru o oed 9 hyd 17 ar wahanol nosweithiau'r wythnos. Ar Nos Wener gwelir y gwragedd wrthi'n chwarae. Mwy am hyn oll oddi wrth Steve Phillips 07473050068 - [nantyriaren4@icloud.com](mailto:nantyriaren4@icloud.com)

'Does dim angen bod yn aelod i wyliau ond mae croeso mawr os i chi am ymuno, ac mae'r Clwb bob amser yn ysu am wirfoddolwyr. Cewch wybod mwy i'r cyfeiriad yma wrth y Cadeirydd Dorian Taylor 07789051510 [dorian.taylor18@btinternet.com](mailto:dorian.taylor18@btinternet.com) neu'r Llywydd John Homer 07528303143 [johnbhomer@btopenworld.com](mailto:johnbhomer@btopenworld.com)

Cadwch lygad ar yr hysbysfwrdd y tu fas i'r maes parcio am y wybodaeth ddiweddaraf. Yr unig beth ar goll o hyd yma yw ein Te godidog ond fe ddaw' nol cyn hir gobeithio. Yn y cyfamser mwynhewch wyliau'r criced gan fwynhau diod fach a'r golygfeydd hudolus o amgylch. Y tu cefn i ni mae yna Le Chwarae diogel i blant ac os camwch i mewn i'r adeilad sylwch ar hanes y Clwb o'r sied wair i'r moethusrwydd presennol ar y muriau.

Croeso

Gemau Sadwrn gweddill y tymor yn Cnwcyderi

Mehefin 12fed – Tregwyr 1af

Mehefin 19eg – Dafen 2 Ail

Mehefin 26ain – Llanelli 1af

Gorffennaf 3dd - Porthcawl Ail

Gorffennaf 10fed - Maesteg 1af

Gorffennaf 17 eg - Merthyr Ail

Gorffennaf 24ain - Llandysul 1af

Sul Awst 1af – Llanwrda 2ail

Awst 7fed – Maesteg Celtic 1af

Awst 14eg – Tregwyr Ail

Awst 21ain Dafen 1af

Awst 28ain – Castell Nedd Ail



# Village Voice June 2021

**Copy Date for next Edition 26<sup>th</sup> July 2021**

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY



Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice and our website [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk). We also receive funding from Llanpumsaint Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.



Caught in the Act!



Nestbox after heinous attack



Skanda Vale Hospice



Swift by Inger Lund Swift Conservation



Blackbird enjoying the spring



Robin waiting for a worm



Tina's Wetlands Photos

### Murder in Llanpumsaint!

Our little bird box near the stables has had blue tits nesting in the five years we have been in Panteg. One morning this week everything was as normal, with the parent blue tits busy flitting in and out to a chorus of chirping.

Lunchtime disaster, when Edward came in for lunch, a huge hole had appeared in the front of the box. The fledglings had been taken out. One fully feathered dead baby bluetit lay on the ground.

We watched and Edward got a picture of the culprit caught in his murderous intent.

Apparently woodpeckers like nothing more than a fledgling bluetit or great tit. They peck a hole in the box, drag the fledglings out and drill through the skull and suck out the cerebral contents (apologies to anyone eating their lunch!).

Who would have thought such a beautiful bird was such a murderous assassin!

E and S Davies



# COVID-19 Testing



## With symptoms

### 'PCR' tests

#### When to take the test


- If you have COVID-19 symptoms
- To confirm your positive lateral flow test result

#### How long it takes

- These tests are processed in labs
- Most results are returned the next day, but can take up to 3 days

#### Get a test

- At a test site
- At home



## Without symptoms

### Rapid 'lateral flow' tests

#### When to take the test

Twice weekly when you do not have symptoms if you:

- Volunteer
- Are an unpaid carer
- Can't work from home
- Participate in a testing scheme in your workplace or education setting

You may also be asked to take a test for other reasons, such as before attending an event.

#### How long it takes

- Result processed by test device
- Around 30 minutes

#### Get a test

- |                            |                          |
|----------------------------|--------------------------|
| • At home                  | • From school or college |
| • Collect from a test site | • At your university     |
| • From work                | • From your nursery      |

**Get tested to keep Wales safe**  
[gov.wales/ttp](http://gov.wales/ttp)

12235

# Brechfa Through Time...

Connecting people through creative exploration  
Face2Face for Summer

Arts Care Gofal Celf are thrilled to have received funding from Brechfa Forest West Wind Farm Fund to provide arts based activities for people of all ages and abilities living in the Brechfa Forest area during 2021.

Get involved 'in person' for the first time and re connect with the community, create and have fun.

## At Keepers, Brechfa... outdoor yet undercover

### COB ART -26<sup>th</sup> June, 10.30-12.30pm

Have creative fun with Cob, a muddy mix of subsoil and straw. You will have the option to create the cob itself and then use the mixture to mould faces or patterns, adding a temporary touch of magic to the Forest. A fun creative workshop guided by ACAC's Dani Lee.

### WIRE LEAVES – 3<sup>rd</sup> July, 10.30-12.30pm

'Leaf a little space for creativity', join Fran to learn wire and bead skills inspired by the trees of Brechfa Forest.

### LINO PRINTING- 10<sup>th</sup> July, 10.30- 3.30pm and 17<sup>th</sup> July, 10.30-12.30pm

Work with Polly in the first of this 2 day opportunity to design and cut a series of single colour lino prints. Return to learn how to print your work on 17<sup>th</sup> July, leaving with work to be proud of.

### WILLOW WEAVING- 24<sup>th</sup> July, 10.30-12.30pm

Learn willow weaving techniques with local artist Justine and create a multi-use bird feeder whilst enjoying the sound of the birds in the trees at Keepers.

## At Eglwys Llanllawddog Church...indoor workshop

### STAINED GLASS SUN CATCHERS – 7<sup>th</sup> August, 10.30-4.00pm

Produce a small leaf or flower copper foiled stained glass sun catcher. Cut, grind and foil glass, solder together to take home and hang a touch of nature in your window, all guided by Laura.

**Booking is essential as spaces are limited due to social distancing. ALL sessions are FREE.**

**PLACES WILL BE LIMITED TO JUST 1 OR 2 ACTIVITIES PER PERSON TO START TO ENSURE OPPORTUNITIES FOR ALL TO GET INVOLVED.**

To book: Email [rachel@acgc.co.uk](mailto:rachel@acgc.co.uk) or leave a message on 01267 243815



[www.acgc.co.uk](http://www.acgc.co.uk)

## **Local traders doing deliveries and/or order and collect**

Lots of information about local shops and help in the village on the Facebook site, Llanpumsaint ar cylch. However, if you don't use Facebook, here are details of some traders that will be in the village, will deliver phone orders or operate a phone or click and collect service:

**Railway Inn** –Open everyday except Monday - phone 01267 253643

**Becky Veg and fruit** in the village from 2.00pm Thursday afternoons – 07969 047045

**Pasture Perfect Meat** Nicky Esgair 07866 311740

Sausages and Bacon **Myrddin Heritage** 07468 453770

- **Baker Adrian Thomas** order Monday for delivery Wednesdays 07971 740505

**Gwalia Stores** Phone and collect 01267 890345

**Chris Thomas** at Abergwili Phone and Collect 01267 238363

**Castell Howell** on-line click and collect from Crosshands 01269 846080

**Castell Howell** Shop at Carmarthen Cash & Carry – see website for details

**Hafod Bakery** Order by Tues 1.00 for Delivery Thursday 01267 211419 [info@hafodbakery](mailto:info@hafodbakery)

**Farmyard Nurseries** Delivering orders – 01559 363389

**Post Office Van Tuesday 13.30 – 15.00 and Friday 13.00 - 15.00**

And of course, if you can get a slot, Morrisons, Asda and Tesco will deliver – the difficult is finding a slot!!!! But Click and Collect is usually easy.

Please contact Carolyn on if you want to be included here.

## **From Carmarthenshire County Council**

Carmarthenshire businesses and support groups are going the extra mile along with Covid-19 community support groups to help and support their local communities.

To see what is going on in our area and to find out what support is available log on to the [Carmarthenshire County Council website](#). If you want to add your business/group to this list email [covid19community@carmarthenshire.gov.uk](mailto:covid19community@carmarthenshire.gov.uk) with the business/group name, brief description of what they are doing, how people can get in touch e.g facebook/web link, email and/or phone number and the area that you are working in. We can add new areas and types of service, if they aren't already listed in the drop-down menus. By working together we can help support our communities.

## **Llanpumsaint Heartbeat**

The 4 defibrillators in the Llanpumsaint area are at the following locations:

Outside the Village Hall SA33 6BZ

Outside the Railway Inn SA33 6BU

On the wall outside Henfryn on way to Ffynnon Henry SA33 6LD

Outside the Vestry at Nebo SA33 6HN

### **Note: You do not need a code to access the defibrillator**

